# Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008

**2008 mccc 1**

**13 Dehongli**

Yn y Mesur hwn—

mae "anaf personol" ("*personal injury*") yn cynnwys unrhyw glefyd ac unrhyw amhariad ar iechyd corfforol neu feddyliol unigolyn;

mae i "claf" yr un ystyr â "patient" yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42);

ystyr "y gwasanaeth iechyd yng Nghymru" ("*the health service in Wales*") yw'r gwasanaeth iechyd a barheir o dan adran 1(1) o'r Ddeddf honno;

ystyr "proffesiynolyn gofal iechyd" ("*a health care professional*") yw aelod o broffesiwn (p'un a yw'n cael ei reoleiddio gan unrhyw ddeddfiad neu yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud (yn llwyr neu yn rhannol) ag iechyd corfforol neu iechyd meddyliol unigolion;

mae i "salwch" yr un ystyr ag "illness" yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 13 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 14(3)**

**I2** A. 13 mewn grym ar 7.2.2011 gan O.S. 2011/211, ergl. 2, **Atod.**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008, Adran 13.